

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

# Gweithredwr Ystafell Rheoli a Danfonwr Swyddog Traffig

## Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



MARK MCNAMARA
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel,  a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.


Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.



# Ble rydym wedi'n lleoli

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd aChanolbarth Cymru.

- **Aberystwyth, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Wrecsam**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**





# Teitl y swydd: Gweithredwr Ystafell Rheoli a Danfonwr Swyddog Traffig

Ydych chi'n mwynhau her ac yn hoffi amrywiaeth? Os felly, yna efallai mai'r swydd hon yw'r peth i chi. Rydym yn chwilio am **Gweithredwr Ystafell Rheoli a Danfonwr Swyddog Traffig** i ymuno â thîm cyffrous sy'n tyfu.

**Cyflog:** S2 (SCP 18-22) £41,478 - £44,321

**Cyfnod:** Parhaol
(42 awr yr wythnos (Pro Rata) Shiftiau 12 awr (yn cynnwys dydd a nos), 365 diwrnod y flwyddyn).

**Lleoliad: Canolfan Rheoli Traffig, Conwy**

**Dyddiad cau:** 28/05/2026

**Ffurflenni cais ar gael trwy ebost swyddi@gwynedd.llyw.cymru**

**Ymgeisiwch**

# Pwrpas y swydd

Mae rôl swyddogaeth ddeuol Gweithredwr Ystafell Reoli a Danfonwr Swyddog Traffig yn rhan o dîm sy'n gyfrifol am reoli digwyddiadau ar y Rhwydwaith Cefnffyrdd yn ddiogel ac yn effeithlon.
Fel Gweithredwr yr Ystafell Reoli byddwch yn gyfrifol am fonitro ein Rhwydwaith Twneli a'n rhwydwaith ffyrdd ehangach i nodi digwyddiadau a phroblemau a chymryd camau priodol. Byddwch yn monitro ac yn gweithredu nifer o systemau twnnel a rheoli trafnidiaeth deallus a byddwch yn ymateb i ddigwyddiadau brys i sicrhau diogelwch bywyd. Byddwch yn gyfrifol am ddosbarthu gwybodaeth hanfodol i randdeiliaid mewnol ac allanol er mwyn hwyluso datrys digwyddiadau yn ddiogel.

Fel Anfonwr Swyddogion Traffig byddwch yn gyfrifol am leoli a chefnogi Swyddogion Traffig Llywodraeth Cymru wrth ymateb i ddigwyddiadau a digwyddiadau ar y rhwydwaith.

Mae'r ddwy rôl yn gofyn am sgiliau cyfathrebu rhagorol, y gallu i weithio dan bwysau a gwneud penderfyniadau wrth logio gwybodaeth yn gywir o fewn system reoli.



# Cyfrifoldebau

**Swydd Danfonydd:**

- Blaenoriaethu a monitro'r gwaith o ddanfon adnoddau yn effeithiol a chofnodi gwybodaeth yn gywir ar ein systemau.
- Rhoi adborth ble bo'n briodol at ddiben gwella Gweithdrefnau Swyddogion Traffig yn barhaus.
- Hysbysu'r Rheolwr Tîm Gweithrediadau ar shifft o'r wybodaeth berthnasol er mwyn sicrhau trosglwyddiad di-dor a pharhad y swyddogaethau rheoli digwyddiad/rhwydwaith.
- Ymgymryd â hyfforddiant a chynnal y galluoedd sy'n ofynnol gan yr Asiantaeth a Llywodraeth Cymru ac sy'n berthnasol i'r swydd.
- Ymddwyn yn broffesiynol bob amser a sicrhau bod y ffordd yr ymdrinnir â'r cyhoedd, y Gwasanaethau Brys ac Asiantaethau eraill o safon uchel yn gyson.
- Cefnogi ac ymateb i'r Gwasanaethau Brys, Rheolwyr Llwybrau Cynorthwyol, Unedau Gwaith Priffyrdd, Contractwr Cynnal a Chadw Arferol (RMC) trwy ddanfon Swyddog Trafnidiaeth.

**Swyddogaeth Gweithredwr:**

- Monitro systemau ystafell reoli Llywodraeth Cymru (LlC) (megis TCC, Citilog) yn ystafell reoli CRhTGChC er mwyn canfod gwrthdrawiadau a digwyddiadau.
- Cefnogi ac ymateb i Wasanaeth Swyddog Traffig LlC, y Gwasanaethau Brys, Stiwardiaid Llwybrau, Unedau Gwaith Priffyrdd, Contractwyr Cynnal a Chadw Arferol (RMC) trwy ddefnyddio systemau'r ystafell reoli ar gyfer gwaith wedi'i drefnu.
- Rhoi'r wybodaeth berthnasol i staff y shifft nesaf er mwyn sicrhau trosglwyddiad di-dor a pharhad o weithgareddau rheoli digwyddiad / y rhwydwaith.
- Rhoi adborth ble bo'n briodol at ddiben gwella gweithdrefnau gweithredu'n barhaus.
- Ymgymryd â hyfforddiant a chynnal y galluoedd sy'n ofynnol gan yr Asiantaeth a Llywodraeth Cymru ac sy'n berthnasol i'r swydd.
- Ymddwyn yn broffesiynol bob amser a sicrhau bod y ffordd yr ymdrinnir â'r cyhoedd, y Gwasanaethau Brys ac Asiantaethau eraill o safon uchel yn gyson.
- Ymlynu at Systemau Rheoli Ansawdd yr Asiant Cefnffyrdd.
- Cefnogi a chynorthwyo Rheolwr y Rhwydwaith, Rheolwr Gweithrediadau, Rheolwr Tîm Gweithrediadau, Rheolwr Twneli, Rheolwr Llwybrau, a'r Gwasanaeth Swyddogion Traffig gyda'u dyletswyddau.
- Cynnal diogelwch ystafell reoli, adeiladau gwasanaeth twneli, ac adeiladau darlledu CRhTGC




## Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

## Meini prawf penodol i'r swydd

Yn gallu gweithio'n ddiogel dan bwysau
Yn ymroddgar ac â'r gallu i'w gymell ei hun
Hyblygrwydd wrth weithio shifftiau yn cynnwys dydd a nôs a gallu i weithio dros amser / newid shifft yn rhesymol pan fo'n ofynnol er mwyn diwallu galw gweithredol

## Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

O leiaf 5 TGAU gan gynnwys Saesneg a Mathemateg, gradd C neu uwch, neu gymhwyster cyffelyb mewn pwnc perthnasol.
**Neu**
Profiad helaeth mewn amgylchedd ystafell reoli / gweithredol
**A**
Rhaid pasio yn llwyddiannus:

- Swyddogaeth Danfonwr Swyddog Traffig o fewn pedwar mis i'r penodiad.
- Y Pecyn Hyfforddi Twneli sy'n cyfateb i NVQ Lefel 3 o fewn chwe mis i'r penodiad.
- Diploma Lefel 3 mewn Gweithrediadau Twneli o fewn 2 flynedd i'r penodiad.

## Profiad perthnasol

Profiad o weithio mewn amgylchedd gweithredol neu wasanaethol.

## Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

Gallu i gofnodi a logio data a gwybodaeth ar y pryd
Gallu gweithio ar ei liwt ei hun ac fel rhan o dîm
Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol
Sgiliau trefnu da
Creadigrwydd a sgiliau datrys problemau
Gallu addasu'n gyflym i sefyllfaoedd sy'n newid
Sgiliau TG da gyda'r gallu i ddefnyddio TG a rhaglenni technoleg. Mae angen cyflymder teipio o leiaf 30 Gair y Munud ar gyfer y rôl
Gallu i'ch ysgogi eich hun a datblygiad proffesiynol parhaus amlwg
Gallu i weithio dan amgylchiadau all fod yn heriol a rheoli gwrthdaro'n effeithiol
Gallu i ddefnyddio a rheoli adnoddau
Bod ag agwedd 'diogelwch yn gyntaf' i weithgareddau
Trwydded Yrru ddilys gyfredol yn y DU.

## Gofynion ieithyddol

Ar gyfer y swydd hon, mae'r gallu i gyfathrebu yn y Saesneg yn hanfodol ag y Gymraeg yn ddymunol

# Gweithio i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGCC yn lle cyffrous i weithio. Mae gennym bolisïau blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a

- 24 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.

- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.

- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol

- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith
  Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!

- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Diwrnod yr wythnos i gwblhau gradd prifysgol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith

- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.